# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

### Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 13eg Mehefin 2022

Presennol: Gareth Jones, John Davies, Alyn Williams, Terry Huws, Henry Huws, Chris Brady, Sian Parry, Sioned Pearson

Ymddiheuriadau: Alan Hughes

1. Yn absenoldeb y Cadeiriwyd croesawodd y Clerc pawb i'r cyfarfod.

2. Derbynwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy** – Cafodd y Clerc amcanbris am hysbysfwrdd - £1,178.80 – bydd yn cyflwyno hwn i'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Bydd Chris Brady yn rhoi amcan bris am y grid cyn cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned.
   b. **Gor yrry ar lon ysgol Tudweiliog -**Ni dderbynwyd unrhyw ymateb gan y Swyddog Iwan ap Trefor, bydd y Clerc unwaith eto yn ceisio cysylltu a'r Swyddog.
   c. **Tir Garnfadryn –** O ganlyniad i drafodaeth fu rhwng y Clerc a Swyddog Archwyliad Mewnol ynglyn a'r tir Garnfadryn cafwyd ar ddeall y bydd angen dangos gweth y tir fel ased. Bydd rhaid felly rhoi gwerth iddo. Bydd y Clerc yn ceisio barn gan Twrna o'r Cyngor Sir ynglyn a sut i symud ymlaen a hyn, yn ogystal a chael barn Un Llais Cymru.
   ch. **Croes ar Ben Garn Fadryn –** Gan mai yr Eglwys sy'n berchen Garn Fadryn, cafodd y Clerc air a'r Parch Kevin Ellis, cafwyd ymateb ganddo ar ebost yn datgan nad oedd gan yr Eglwys wrthwynebiad i'r groes er nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth pwy a'i gosododd. Anfonodd y Clerc at yr adran Gynllunio ynghyd a'r adran AHNE. Ni dderbynwyd ymateb gan yr adran Gynllunio, tra

bu i’r adran AHNE ddweud nad oedd ganddynt hwythau unrhyw wrthwynebiad iddi.
Bydd y Clerc yn cysylltu unwaith eto a’r adran Gynllunio, gan eu gwybyddu fod sawl pryder ymysg trigolion yr ardal am ei diogelwch a’r ffaith na wyr neb paham y gosodwyd y groes. Daeth yn amlwg hefyd fod fflag Wrcain wedi ei gosod ar gopa’r Garn.

4. Yn ystod ail hanner y cyfarfrod, daeth tymor y Cadeirydd Alan Hughes i ben a chroesawyd y Cadeirydd newydd Gareth Jones. Diolchwyd i Alan am ei waith dros y flwyddyn diwethaf. Etholwyd Henry Hughes fel is gadeirydd.

5. Gohebiaeth:

**a. Lwfans Cynghorwyr –** Trafodwyd y mater, a penderfynnodd pob Cynghorydd oedd yn bresennol i optio allan ac arwyddo’r ffurflen. Bydd y Clerc yn cysylltu a’r rhai oedd ddim yn bresennol.

**b. Cronfa Cynnal a Chadw Diffib Tudweiliog** – Penderfynwyd rhoi siec o £50.00 i’r gronfa. Ar hyn o bryd mae’r diffib wedi ei osod yn y Lion, teimla rhai y dylai fod fwy canolog – bydd y Clerc yn siarad a Siwsan Griffith am hyn.

**c. Siec John Tudor –** Derbynwyd anfoneb £120.00 gan y cyfrifydd am waith yn ystod y flwyddyn o weithio allan PAYE y Clerc – cafodd y Clerc ganiatad y Cyngor i’w thalu.

ch. **Elusen John Edwards-** Derbyniodd y Clerc gopi o lythyr gan Richard Lewis – cafwyd diweddariad gan Sian Parri ar y mater.

**d. Seddi Gwag –** Cafodd y Cerc wybod gan Medwyn Jones a Richard Williams eu bod yn dymuno sefyll i lawr o’r Cyngor – bydd y Clerc yn dechrau’r broses o wybyddu fod dwy sedd wag ar y Cyngor. Diolch i’r ddau am eu gwaith dros y blynyddoedd diwethaf.

**dd. Diffyg ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd –** Derbyniodd y Clerc ebost gan Cyngor Cymuned Llandegai yn gofyn am enghreifftiau o brofiadau Cyngor Tudweiliog ar y mater yma. Bydd y Clerc yn ymateb i’r ebost gan nodi ambell brofiad wrth ddelio ar Adran Gorfodaeth a’r Adran Ffyrdd.

**e. Cyflwr manau pasio** -Cafwyd cwyn fod cyflwr y manau pasio ar lon rhwng Beudi Bigyn a Sarn yn ddrwg iawn, hefyd fod rhai yn gor yrry ar y darn yma o’r lon. Bydd y Clerc yn cysylltu a’r Adran Ffyrdd.

f. **Archwyliad mewnol** – Cafwyd adroddiad yr Archwyliad mewnol yn ol, rhannodd y Clerc hi a phob Cynghorydd. Roedd ambell awgrymiad – i sicrhau fod taliadau yn cael eu dangos o fewn y flwyddyn arianol awgrymwyd y byddai’n dda newid i bancio ar lein (bydd y Clerc a’r Cadeirydd yn trefnu i fynd i’r banc i weithredu hyn yn fuan), a hefyd fod angen dangos tir Garnfadryn fel ased (fel y trafodwyd eisioes)

**ff**. **Cais Cynllunio** C22/0479/46/DT Cil Llidiart Tudweiliog – ‘Dim sylw’

**6. Unrhyw fater arall-**

**a.** Cafwyd cwyn fod coeden yn tyfu drosodd i’r ffordd ar lon Mynydd wrth y cwt dwr. Bydd y Clerc yn cysylltu a’r adran priffyrdd.

**b.** Gyda tymor y gwyliau yn dechrau, daeth cwynion fod ysbwriel a carthion dynol yn broblem unwiath eto ym Mhorth Ysgaden. Bydd y Clerc yn cysylltu a Wyn Williams a Dafydd Williams o’r adran Amgylchedd i holi beth ddigwyddodd a’r ol y cyfarfod fu ar y safle nol yn mis Ebrill 2021

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 11fed Gorffennaf 2022 am 7.30yh